**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO**

**A GYNHALIWYD AR 28 MEHEFIN 2023**

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd

Mark Thomas

Dafydd Dafis

Glyn Daniels (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Eifiona Davies a Morwenna Pugh.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis fuddiant yn eitem 4 ar yr agenda fel llywodraethwr Ysgol Tanygrisiau.

**3. Cais Cynllunio - NP5/59/802A - Adeiladu storfa amaethyddol a domestig 9m x 6m (Cais diwygiedig), Pen y Brisgyll, Ffordd Heulog, Llan Ffestiniog, LL41 4NE**

Mae braslun o'r storfa ddiwygiedig wedi ei atodi gyda'r rhaglen hon. Mae maint y sied bellach wedi ei leihau.

Roedd y cais hwn wedi ei drafod o'r blaen, ac roedd maint y sied yn y cynllun bellach yn llai. Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Glyn Daniels nad oedd y Cyngor Tref yn gwneud unrhyw wrthwynebiad, a chytunodd pawb.

**4. Cae Tanygrisiau**

Adroddwyd ar ebyst rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir ar y mater hwn, a oedd wedi bod yn destun trafodaeth er amser maith bellach. Adroddwyd bod ebost wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Sir Elfed Wyn ap Elwyn yn holi a fyddai modd i Ysgol Tanygrisiau gael darn o'r tir at eu defnydd nhw.

Cafwyd cefndir y safle gan y Cynghorydd Dafydd Dafis, yr hyn sydd wedi digwydd yno yn hanesyddol, a sut cyrhaeddwyd y pwynt hwn. Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas mai'r cyhoedd sydd biau'r tir mewn gwirionedd.

Trafodwyd y posibilrwydd o hawlio meddiant gwrthgefn, a dywedodd y cynghorwyr nad oeddynt yn hoffi sut roedd y Cyngor Sir i bob pwrpas yn bygwth cau'r cae chwarae pe na byddai'r Cyngor Tref yn cymryd y cyfrifoldeb, er bod y Cyngor Tref wedi cynnal y safle ers blynyddoedd.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Glyn Daniels bod y Cyngor Tref yn cysylltu gyda'u cyfreithiwr i weld lle mae'r Cyngor yn sefyll a chytunodd pawb.

drafft

Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at swyddog y Cyngor Sir i'w hysbysu bod y Cyngor Tref yn gwneud ymchwil pellach i'r sefyllfa.

**4. Creu Compost o Doriadau Gwrychoedd a Thorri Gwair Caeau'r Cyngor Tref**

Ystyried defnyddio toriadau gwrychoedd a gwair caeau a thiroedd y Cyngor Tref i greu compost at y dyfodol, a gwneud defnydd o'r hyn sydd ar hyn o bryd yn cael ei waredu pan fydd tiroedd y Cyngor yn cael eu torri/tocio.

Mae Polisi Amgylcheddol cyfredol y Cyngor Tref yn datgan:

***Rheolaeth Gwastraff***

> *Lleihau, ail-ddefnyddio neu ailgylchu gwastraff wrth sicrhau storfa ddiogel, llawio, cludiant a gwaredu pob gwastraff a geir gan ein gweithgareddau.*

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn gwneud hyn gan ddefnyddio'r tir ger y Cwt Canŵs ar gyfer y domen gompost, ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis a chytunodd pawb.

**5. Heol Leeds – Ymestyn y Llinellau Melyn ar ochr dde y ffordd**

Mae ceir yn parcio ar ochr dde y ffordd ar achlysur, a allai achosi trafferth i gerbydau argyfwng petai angen cael mynediad, a hefyd cerbydau ailgylchu. Roedd cais wedi ei dderbyn i gefnogi ymestyn y llinellau melyn ar ochr dde y ffordd dan sylw.

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Glyn Daniels bod y Cyngor Tref yn cefnogi estyniad i'r llinellau melyn a chytunodd pawb.

**6. Llythyr o Gefnogaeth i'r Ganolfan Gymunedol**

Ystyried ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i gais y Ganolfan Gymunedol am grant i uwchraddio'r system wresogi a'r ffenestri yn adeilad y Ganolfan.

Datganodd y Cynghorydd Glyn Daniels fuddiant yn yr eitem gan ei fod yn Llywydd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan.

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas a chytunodd pawb bod y Clerc yn ysgrifennu llythyr o gefnogaeth ar ran y Cyngor Tref.

**7. Er gwybodaeth**

Adroddodd y Cynghorydd Mark Thomas nad oedd Cyngor Tref Llanrwst am roi benthyg y gazebos i'r Cyngor Tref ar gyfer diwrnod Hwyl yn y Parc mis Awst gan mai dim ond ar gyfer achosion lleol roeddynt yn cael eu defnyddio.

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Daniels bod y Cyngor Tref yn anfon cerdyn cydymdeimlo i Helen Jones, Archwiliwr Caeau Chwarae'r Cyngor Tref ar farwolaeth drist ei gŵr yn ddiweddar a chytunodd pawb gyda hynny, gan anfon cydymdeimlad dwys iddi ar ei cholled.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40pm

draft